
Lleolrwydd ar radio masnachol

Diwygiadau i ganllawiau ac ardaloedd cymeradwy, ac ymgynghoriad pellach ar ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban

DATGANIAD AC YMGYNGHORIAD

Dyddiad cyhoeddi: 26 Hydref 2018

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 30 Tachwedd 2018

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys datganiad ac ymgynghoriad pellach.

Mae'r datganiad yn nodi ein penderfyniadau i wneud y canlynol:

- bwrw ymlaen â'r diwygiadau arfaethedig i'n canllawiau lleolrwydd, sy'n ymwneud â'r nifer sylfaenol o oriau sy'n cael eu gwneud yn lleol y dylai pob gorsaf eu darparu, pryd y dylai'r rhaglenni hyn gael eu hamserlennu, a darparu deunydd lleol;
- cymeradwyo'r ardaloedd roeddem yn eu cynnig ar gyfer gorsafoedd yn Lloegr, Gogledd Iwerddon ac Ynysoedd y Sianel lle ystyrir bod eu rhaglenni yn cael eu gwneud yn lleol.

Mae'r elfen ymgynghoriad pellach yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid erbyn **dydd Gwener 30 Tachwedd 2018** ar yr 'ardaloedd cymeradwy' arfaethedig yn yr Alban a Chymru yr ydym wedi'u hadolygu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb Gweithredol	1
2. Cefndir	3
3. Rhaglenni a wneir yn lleol	7
4. Ardaloedd cymeradwy	13
5. Deunydd lleol	18

Atodiad

A1. Y canllawiau diwygiedig ar gyfer lleolrwydd	20
A2. Map o'r ardaloedd cymeradwy ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwedd	26
A3. Map o'r ardaloedd cymeradwy arfaethedig ar gyfer Cymru a'r Alban	27
A5. Ardaloedd cymeradwyo arfaethedig ar gyfer Cymru a'r Alban yn ôl trwydded	28
A6. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	30
A7. Egwyddorion ymgynghori Ofcom	33
A8. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	34
A9. Cwestiwn yr ymgynghoriad	35

1. Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

1.1 Rhaid i Ofcom sicrhau bod gorsafoedd radio masnachol analog (h.y. FM ac AM) lleol yn darparu nifer priodol o:

- raglenni sy'n cynnwys deunydd lleol; a
- rhaglenni a wneir yn lleol.

Rhaid i ni hefyd ddarparu canllawiau ynghylch sut dylai trwyddedeion radio masnachol lleol fodloni'r gofynion statudol hyn.

1.2 Oherwydd cyflymder y newidiadau yn y sector cyfryngau, rydym wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o'r canllawiau lleolrwydd ac wedi comisiynu ymchwil newydd ymysg cynulleidfaoedd. Fe arweiniodd canlyniadau'r adolygiad a'r ymchwil at ein hymgyngoriad ym mis Mehefin 2018 ¹ ar gynigion i ddiwygio ein canllawiau lleolrwydd.

1.3 Ar ôl ystyried y 48 ymateb i'r ymgynghoriad yn ofalus, rydym yn awr yn diwygio ein canllawiau lleolrwydd i gynnwys y disgwyliadau sylfaenol newydd canlynol:

- Dylai gorsafoedd FM lleol sy'n darparu newyddion lleol yn rheolaidd drwy gydol y dydd ddarlledu **o leiaf dair awr o raglenni bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 6am a 7pm** sydd wedi cael eu gwneud yn yr ardal leol (neu gymeradwy).
- Dylai gorsafoedd FM lleol sy'n darparu newyddion lleol amser brecwast a diwedd y prynhawn yn unig ddarlledu **o leiaf chwe awr o raglenni bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 6am a 7pm** sydd wedi cael eu gwneud yn yr ardal leol (neu gymeradwy).

1.4 Mae'r diwygiadau uchod yn golygu nad oes disgwyliad mwyach o dan ein canllawiau lleolrwydd i raglenni adeg brecwast o ddydd Llun i ddydd Gwener gael eu gwneud yn lleol, nac i raglenni a wneir yn lleol gael eu darparu ar y penwythnos neu ar wyliau cyhoeddus.

1.5 Mewn perthynas â darparu deunydd lleol, bydd y canllawiau yn awr yn dweud:

“dylai unrhyw orsaf y mae cymeriad ei wasanaeth yn mynnu ei fod yn darparu gwasanaeth lleol gynnwys, yn ogystal â lefel y newyddion lleol a bennwyd yn ei Fformat, ddigon o ddeunydd lleol arall yn unol â'r canllawiau hyn i ddarparu cymeriad angenrheidiol y gwasanaeth”.

1.6 Ar gyfer gwasanaethau radio masnachol lleol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon ac Ynysoedd y Sianel rydym yn cymeradwyo'r ardaloedd a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 (ni ddangosir Ynysoedd y Sianel ar y map) ac a nodir yn Atodiad 4 yn y datganiad hwn.

1.7 Ar gyfer gwasanaethau radio masnachol lleol yng Nghymru a'r Alban, rydym wedi penderfynu ymgynghori ymhellach ar ardaloedd cymeradwy newydd arfaethedig ar ôl yr

¹ https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0012/115113/consultation-localness-radio.pdf

ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad. Bydd yr ardaloedd cymeradwy sengl ar gyfer Gogledd Iwerddon ac Ynysoedd y Sianel yn aros heb newid (yn unol â'r ymgynghoriad).

- 1.8 Yn bwysig iawn, er bod y diwygiadau hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i orsafoedd ddarparu llai o raglenni a wneir yn lleol nag oedd y sefyllfa o dan ein canllawiau presennol, ac i'r rhaglenni hynny a wneir yn lleol gael eu gwneud ymhellach o'r ardal mae'r orsaf yn darlledu iddi, rydym wedi egluro ein disgwyliadau ynghylch y mathau o ddeunydd lleol y dylai gorsaf leol eu darparu, a faint. Mae hyn yn golygu y dylai gwrandawyr barhau i ddisgwyl gwasanaeth sy'n berthnasol yn lleol, ni waeth o ble mae'r rhaglenni'n cael eu darlledu.
- 1.9 Mae'r canllawiau lleolrwydd diwygiedig i'w cael yn Atodiad 1. Caiff gorsafoedd yn awr wneud cais i newid eu Fformatau i adlewyrchu'r canllawiau newydd², os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

² Mae'r Ffurflen ar gyfer Gwneud Cais i Newid Fformat ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/manage-your-licence/radio-broadcast-licensing/amend> o dan yr adran Newidiadau i Fformatau analog'

2. Cefndir

Y gofynion statudol

- 2.1 Mae Deddf Darlledu 1990 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Ofcom ynghylch radio masnachol analog (FM ac AM) lleol, a dyletswydd benodol ynghylch pob gwasanaeth lleol rydym yn ei drwyddedu. Y ddyletswydd gyffredinol ydy ei bod yn rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ystod o wasanaethau amrywiol yn cael eu darparu³. Y ddyletswydd benodol ydy pan fyddwn yn cynnal proses dyfarnu trwydded gystadleuol ac yn dewis yr enillydd, ei bod yn rhaid i'r drwydded a roddwn i'r enillydd gynnwys amodau priodol i sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth, fel oedd yn cael ei gynnig gan ddeiliad y drwydded wrth wneud y cais, yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y drwydded⁴. Mae darpariaethau statudol yn bodoli hefyd pan fydd modd gwneud newidiadau i gymeriad y gwasanaeth yn ystod cyfnod y drwydded os caiff amodau penodol eu bodloni. Caiff cymeriad gwasanaeth pob gorsaf ei gofnodi mewn rhan o'r drwydded o'r enw Fformat.
- 2.2 Yn ogystal â'r dyletswyddau hyn, o dan y gyfraith⁵ mae'n rhaid i Ofcom hefyd gyflawni ein swyddogaethau sy'n berthnasol i wasanaethau lleol yn y ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau bod gorsafoedd radio masnachol analog lleol yn darparu:
- rhaglenni sy'n cynnwys deunydd lleol; a
 - rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol
- i'r graddau (os o gwbl) mae Ofcom o'r farn ei bod hi'n briodol, a darparu cyfarwyddyd ynghylch sut dylid bodloni'r gofynion statudol hyn.
- 2.3 Caiff 'deunydd lleol' ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth fel deunydd sydd o ddiddordeb penodol i'r rheini sy'n byw neu'n gweithio yn (neu mewn rhan o) yr ardal neu'r ardal leol lle caiff [gwasanaeth radio lleol penodol] ei ddarparu, neu i gymunedau penodol sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol honno (neu ran ohoni). Y diffiniad pellach o 'deunydd' yw ei fod yn cynnwys newyddion, gwybodaeth a deunydd llafar arall a cherddoriaeth.
- 2.4 Caiff 'rhaglenni a wneir yn lleol' eu diffinio yn y ddeddfwriaeth fel rhaglenni sy'n cael "eu gwneud yn llwyr neu'n rhannol mewn eiddo yn yr ardal neu'r ardal leol lle caiff y gwasanaeth hwnnw ei ddarparu neu, os oes ardal gymeradwy ar gyfer y rhaglenni, yr ardal honno."
- 2.5 Dyma'r canllawiau sy'n berthnasol ar hyn o bryd:
- O ddydd Llun i ddydd Gwener, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu naill ai:

³ Adran 85(2)(b), Deddf Darlledu 1990

⁴ Adran 106(1), Deddf Darlledu 1990

⁵ Adran 314, Deddf Cyfathrebiadau 2003

- o leiaf 10 awr o raglenni a wneir yn lleol rhwng 6am a 7pm (ac mae'n rhaid i hyn gynnwys y rhaglen frecwast) os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (brecwast a diwedd y prynhawn), neu;
- o leiaf 7 awr o raglenni a wneir yn lleol rhwng 6am a 7pm (ac mae'n rhaid i hyn gynnwys y rhaglen frecwast) os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr drwy gydol yr un cyfnod.
- Bob dydd Sadwrn a dydd Sul, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu o leiaf 4 awr o raglenni a wneir yn lleol rhwng 6am a 7pm, a newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (sy'n cael ei alw yn frecwast hwyr).
- Nid oes angen i orsafoedd lleol AM gynhyrchu unrhyw raglenni a wneir yn lleol na darlledu unrhyw ddeunydd lleol, ond dylai o leiaf 10 awr rhwng 6am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener gael eu cynhyrchu yn y wlad yn y DU lle mae ardal ddarlledu'r orsaf.
- Nid oes yn rhaid i rai gorsafoedd analog 'rhanbarthol', sydd wedi'u diffinio, gynhyrchu unrhyw raglenni a wneir yn lleol na darlledu unrhyw ddeunydd lleol ar yr amod eu bod yn cael eu darlledu ar amblecs DAB cenedlaethol.
- Caiff pob gorsaf leol gynhyrchu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol o stiwdios unrhyw orsaf arall mewn ardal ehangach sydd wedi cael ei chymeradwyo gan Ofcom, a rhannu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ag un orsaf leol neu fwy yn yr ardal gymeradwy hon.

2.6 Wrth gyflawni ei swyddogaethau'n ymwneud â gwasanaethau radio masnachol lleol, rhaid i ni gydymffurfio â'n dyletswyddau cyffredinol sydd wedi'u nodi yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r rhain yn cynnwys ein dyletswydd i sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau radio ar gael ledled y DU sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac a fydd yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau⁶, a'n dyletswydd i ystyried, wrth gyflawni ein swyddogaethau, yr egwyddorion sy'n nodi y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau.⁷

Y cyd-destun ar gyfer y newidiadau

2.7 Mae bron i ddegawd wedi mynd heibio ers i Ofcom gynnal adolygiad o'i waith yn rheoleiddio lleolrwydd ar y radio⁸. Ers hynny, mae gorsafoedd radio analog lleol wedi wynebu mwy o gystadleuaeth am wrandawyr ac am hysbysebwr. Mae data o'r sefydliad

⁶ Adran 3(2)(c) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

⁷ Adran 3(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

⁸ Cyhoeddwyd ymgynghoriad Ofcom 'Radio: goblygiadau Prydain Ddigidol ar gyfer rheoleiddio lleolrwydd' ym mis Gorffennaf 2009, gyda'r datganiad yn dilyn ym mis Ebrill 2010. Mae'r naill ddogfen a'r llall ar gael yn:

<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/radio>

ymchwil cynulleidfaoedd radio annibynnol RAJAR yn dangos y bu newid mawr mewn patrymau gwrando dros y degawd diwethaf oddi wrth orsafoedd radio masnachol lleol i radio masnachol cenedlaethol. Mae hyn yn debyg o adlewyrchu'r ffaith bod gan wrandawyr mwy o ddewis o lawer bellach o orsafoedd radio cenedlaethol ar y llwyfan DAB.

- 2.8 Ar hyn o bryd mae gwahaniaeth hefyd, yn enwedig o ran gofynion 'lleolrwydd', rhwng y broses lawer ysgafnach o reoleiddio gwasanaethau sy'n cael eu darlledu ar y llwyfan DAB o'i gymharu â rheoleiddio'r rheini sy'n cael eu darlledu ar radio analog (AM ac FM).
- 2.9 Fe gyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad ym mis Chwefror 2017⁹, ac roedd yn nodi nifer o gynigion ar gyfer diwygio fframwaith rheoleiddio radio masnachol. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion i ddileu dyletswydd gyfredol Ofcom i sicrhau amrywiaeth a dewis o wasanaethau radio, a sefydlu dyletswydd newydd i sicrhau bod newyddion a gwybodaeth graidd arall fel gwybodaeth am draffig a theithio a'r tywydd yn cael eu darparu, a bod pob gorsaf radio masnachol lleol yn cael yr hyblygrwydd i gynhyrchu ac i ddarlledu cynnwys sy'n berthnasol yn lleol heb ofynion ynghylch lle caiff y cynnwys hwnnw ei wneud neu ei ddarlledu ohono. Ym mis Rhagfyr 2017, cadarnhaodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu symud ymlaen gyda'r rhain a chynigion eraill¹⁰, drwy ddod â deddfwriaeth ymlaen cyn 2022.

Ymchwil cynulleidfa newydd

- 2.10 Yn gynharach eleni fe gomisiynodd Ofcom arolwg omnibws ar-lein gyda sampl o 1,621 o wrandawyr radio masnachol lleol ar draws y DU. Nod yr ymchwil oedd deall yr hyn sy'n cymhell pobl i wrando ar y gorsafedd hynny a pha elfennau, os o gwbl, sy'n cyfrannu at 'lleolrwydd' gorsaf. Mae manylion llawn yr ymchwil hwn a'r canlyniadau i'w gweld yn yr ymgynghoriad 'Lleolrwydd ar radio masnachol'¹¹.

Hyd a lled y newidiadau, a'r camau nesaf

- 2.11 Mae'r newidiadau sy'n cael eu cyhoeddi yn y ddogfen hon yn berthnasol i'n canllawiau lleolrwydd ac ardaloedd cymeradwy yn Lloegr, Gogledd Iwerddon ac Ynysoedd y Sianel.
- 2.12 Rydym yn ymgynghori ymhellach ar gynigion ar gyfer ardaloedd cymeradwy diwygiedig yng Nghymru a'r Alban.
- 2.13 Nid yw'r newidiadau yn edrych ar agweddau Fformatau nad ydyn nhw'n ymwneud â lleolrwydd (yn bennaf y gofynion sy'n ymwneud ag allbwn cerddoriaeth) gan ein bod wedi ystyried y maes hwn yn gymharol ddiweddar, yn 2015, gan ddadreoleiddio'n sylweddol ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus.¹²

⁹https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/591508/RadioDereg-Final13Feb.pdf

¹⁰https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/668926/Commercial_radio_deregulation_Government_response_final.pdf

¹¹ https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0012/115113/consultation-localness-radio.pdf

¹² https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/115181/lleolrwydd-radio-masnachol.pdf

- 2.14 Bydd angen i orsafoedd sy'n dymuno gwneud newidiadau i'w Fformat sy'n cyd-fynd â'r canllawiau lleolrwydd newydd barhau i wneud cais am newid Fformat er mwyn gweithredu'r newidiadau hyn.
- 2.15 O dan y fframwaith statudol, nid oes yn rhaid i Ofcom ymgynghori ar gais gan orsaf i ddarparu ei raglenni lleol o unrhyw leoliad(au) yn ei hardal gymeradwy newydd (fel sy'n cael ei nodi yn y ddogfen hon).
- 2.16 Nid oes yn rhaid i ni chwaith ymgynghori os ydym yn meddwl na fyddai newid arfaethedig i Fformat yn arwain at newid sylweddol i gymeriad y gwasanaeth. Rydym yn debyg o ystyried cais i leihau faint o oriau rhaglenni a wneir yn lleol, ac sy'n cyd-fynd â'r canllawiau lleolrwydd diwygiedig a nodir yn y ddogfen hon, fel cais nad yw'n golygu newid sylweddol i gymeriad gwasanaeth.

Strwythur y ddogfen

- 2.17 Yn Adran 3, rydym yn nodi'n newidiadau i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud â lefel ac amserlennu rhaglenni a wneir yn lleol.
- 2.18 Yn adran 4, rydym yn cyhoeddi ein newidiadau i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud â'r 'ardaloedd cymeradwy' (o ble y gall y rhaglenni a wneir yn lleol ddod) yn Lloegr, Gogledd Iwerddon ac Ynysoedd y Sianel. Mae adran 4 hefyd yn cynnwys ymgynghoriad ar ein hardaloedd cymeradwy arfaethedig yng Nghymru a'r Alban, ac yn egluro pam rydym yn cynnig diwygio'r ardaloedd hyn.
- 2.19 Yn olaf, yn Adran 5, rydym yn disgrifio'r newidiadau i'r canllawiau lleolrwydd sy'n ymwneud â deunydd lleol.

Asesiad o'r effaith ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

- 2.20 Gyda'i gilydd mae'r ddogfen hon yn cynnwys asesiad o'r effaith yn unol â'r diffiniad yn Adran 7 o Ddeddf 2003. Nid ydym wedi canfod unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau cydraddoldeb (h.y. oed, anabled, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol). Nid ydym chwaith wedi gweld yr angen i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar wahân mewn perthynas â'r grwpiau cydraddoldeb ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon: cred grefyddol, barn wleidyddol a dibynyddion. Y rheswm am hyn ydy ein bod yn disgwyl na fydd y newidiadau i'n canllawiau lleolrwydd yn cael effaith wahaniaethol yng Ngogledd Iwerddon o'i gymharu â gwrandawyr yng ngweddill y DU.
- 2.21 Rydym hefyd wedi ystyried Safonau'r Iaith Gymraeg Ofcom ar Lunio Polisiâu fel sy'n cael ei amlinellu yn ei hysbysiad cydymffurfio. Mae'r safonau llunio polisiâu yn berthnasol ar yr adeg pan fyddant yn cael effaith ni waeth lle bydd y penderfyniad polisi yn cael ei wneud. Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw un o'r newidiadau i'n canllawiau lleolrwydd yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3. Rhaglenni a wneir yn lleol

Beth roeddem wedi'i gynnig

- 3.1 Roeddem wedi dweud yn y ddogfen ymgynghori ein bod o'r farn bod ein cynigion i ddiwygio'r canllawiau lleolrwydd a newid yr ardaloedd cymeradwy yn ddull gweithredu priodol a chymesur i sicrhau cynnwys a chymeriad lleol gwasanaethau radio lleol.
- 3.2 Daethom i'r farn hon ar y sail y byddai disgwyl i unrhyw orsaf y mae ei chymeriad yn gorfod bod yn lleol yn ôl ei Fformat barhau i ddarparu digon o ddeunydd lleol (h.y. deunydd rhaglen sy'n berthnasol yn lleol, fel teithio, gwybodaeth am yr hyn sydd ymlaen ac ati), yn ogystal â newyddion lleol, i gynnal y cymeriad lleol hwn, ni waeth o ble y daw ei rhaglenni.
- 3.3 Yn benodol, gwnaethom gynnig y diwygiadau canlynol i'n canllawiau lleolrwydd:
 - O ddydd Llun i ddydd Gwener, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu naill ai:
 - o leiaf 6 awr (10 awr ar hyn o bryd) o raglenni a wneir yn lleol rhwng 6am a 7pm os ydynt yn darparu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (brecwast ac amser gyrru yn ystod y prynhawn), neu;
 - o leiaf 3 awr (7 awr ar hyn o bryd) o raglenni a wneir yn lleol rhwng 6am a 7pm os ydynt yn darparu newyddion lleol o leiaf bob awr drwy gydol yr un cyfnod.
- 3.4 Fe ddywedon ni hefyd na fyddem bellach yn disgwyl i orsafoedd ddarparu rhaglen frechwast a wneir yn lleol, ac na fyddai disgwyliad i gael rhaglenni a wneir yn lleol ar benwythnosau neu ar wyliau banc.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr

Gostyngiadau mewn disgwyliadau mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol

- 3.5 Roedd corff masnach radio masnachol Radiocentre, a'r grwpiau radio masnachol unigol a ymatebodd i'r ymgynghoriad, i gyd yn cefnogi'r honiad canolog y tu ôl i'r cynigion, sef y gallai dyletswydd Ofcom i sicrhau 'lleolrwydd' gael ei fodloni o hyd, hyd yn oed petai gorsafoedd yn gallu lleihau faint o raglenni a wneir yn lleol maent yn eu darlledu. Er enghraifft, fe ddywedodd Celador Radio: "Fel y mae Ofcom wedi nodi, ac wedi cyflwyno tystiolaeth ymchwil i gefnogi hynny, gwan iawn ydy'r cysylltiad rhwng lleoliad y stiwdio a pha mor lleol ydy'r cynnwys a beth yw barn y gwrandawyr am leolrwydd."
- 3.6 Dywedodd Global Radio: "mae'r syniad o saith awr orfodol [o raglenni a wneir yn lleol bob diwrnod gwaith] yn hen ffasiwn ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i effaith technoleg na' modelau gweithredu amrywiol ar draws y diwydiant. Mae cynnig Ofcom yn gam doeth yn y canol rhwng cynigion cynhwysfawr DCMS, y bydd yn rhaid cael deddfwriaeth newydd ar eu cyfer, a'r drefn bresennol."

- 3.7 Dywedodd Radiocentre: “mae’r rhain yn ymddangos yn ddiwygiadau doeth a fydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i orsafoedd radio masnachol lleol i barhau i gefnogi deunydd lleol, ond sy’n gwneud newidiadau i’r dulliau cyflwyno a chynhyrchu. Un o ganlyniadau anffodus y canllawiau presennol yw eu bod fel petai’n rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn stiwdios lleol yn hytrach nag allbwn o safon uchel sy’n berthnasol yn lleol.”
- 3.8 Ond, roedd llawer o’r ymatebwyr yn anghytuno â’n safbwynt ni y gallai dyletswydd Ofcom i sicrhau ‘lleolrwydd’ barhau i gael ei chyflawni petai gorsafoedd yn gallu lleihau faint o raglenni a wneir yn lleol y maent yn eu darlledu. Roedd nifer sylweddol o’r ymatebwyr hyn yn cyfuno rhaglenni a wneir yn lleol gyda deunydd lleol. Ond roedd y rheini na wnaethant hynny yn dadlau serch hynny y byddai newid y canllawiau sy’n ymwneud â rhaglenni a wneir yn lleol yn y ffordd sy’n cael ei chynnig yn cael effaith negyddol ar allu gorsafoedd i ddarparu lefelau priodol o ddeunydd lleol.
- 3.9 Roedd barn yr ymatebwyr hyn yn seiliedig ar y sylw am raglenni rhwydwaith (h.y. heb eu gwneud yn lleol), sef mai dim ond ar ‘gyffordd’ am gyfnod penodol o amser mewn rhaglen sydd wedi’i hamserlennu ymlaen llaw y mae deunydd lleol yn cael ei ddarlledu fel arfer. Roeddynt yn dadlau bod hyn yn rhoi llai o hyblygrwydd i gyflwynwyr siarad yn anffurfiol am faterion lleol a chyfeirio at enwau lleoedd lleol y tu allan i’r adegau hyn, neu i orsafoedd drwyddi draw ymateb i ddigwyddiadau lleol (e.e. stori leol o bwys yn torri neu amodau tywydd eithafol) os ydynt ‘yn y rhwydwaith’. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn gwneud y pwynt bod ymateb i ddigwyddiadau lleol yn fwy anodd os oes llai o staff wedi’u lleoli yn yr ardal leol.
- 3.10 Y brif ddadl arall a gyflwynwyd gan y cyfan bron o’r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â’r cynigion yn erbyn galluogi gorsafoedd i leihau faint o raglenni lleol maent yn eu darparu, oedd na all gorsaf radio leol ddarparu gwasanaeth sy’n berthnasol yn lleol oni bai ei bod wedi’i lleoli yn yr ardal mae’n darlledu iddi.
- 3.11 Er enghraifft, dywedodd un o’r ymatebwyr nad yw “lleolrwydd ar radio masnachol lleol yn rhyw ‘ychwanegiad’ neu’n ‘oriau contract’ o gynnwys ‘lleol’ gorfodol; lleolrwydd yw’r edefyn sy’n cynnal yr ymdeimlad o le, hunaniaeth, safbwyntiau, barn, lleoliadau, acen, tafodiaith a brandio wedi’u cyfuno i i gyd i greu rhywbeth sy’n ddi-os yn unigryw i’r ardal. Sefydlu swyddfa barhaol yn y rhanbarth, hyrwyddo’r gwasanaeth ar lawr gwlad a wynebau cyfarwydd lleol sy’n gwneud radio lleol yn unigryw. ”
- 3.12 Lleisiodd rhai o’r ymatebwyr bryderon bod lleoli cyflwynwyr a newyddiadurwyr yn bell o ardal ddarlledu’r orsaf yn golygu na fyddai ganddynt y math o wybodaeth leol am yr ardal a all, er enghraifft, wella ansawdd bwletinâu traffig, neu alluogi newyddiadurwyr i feithrin cysylltiadau lleol a chynhyrchu straeon newyddion lleol gwreiddiol. Ysgrifennodd Stuart McDonald, Aelod Seneddol Cumbernauld, Kilsyth a Dwyrain Kirkintilloch: “Mae rhaglenni sydd wedi’u cynhyrchu’n lleol yn rhywbeth gwerthfawr iawn, lle mae gan y cyflwynwyr a’r cynhyrchwyr wybodaeth fanwl am ardaloedd tagfeydd traffig, y materion sy’n bwysig i wrandawyr lleol a hyd yn oed y tywydd y tu allan. Yn ystod y stormydd eira diweddaraf, roedd gan radio lleol rôl hanfodol yn darparu gwybodaeth am yr ysgolion a oedd wedi cau ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y traffig ar sail eu profiad eu hunain a straeon gan bobl eraill.”

- 3.13 Roedd eraill yn awgrymu mai'r rheswm am y gostyngiad diweddar yn y nifer sy'n gwranddo ar radio masnachol lleol oedd bod gorsafoedd lleol wedi mynd yn 'llai lleol'.

Tystiolaeth ymchwil Ofcom

- 3.14 Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn herio agweddau ar y dystiolaeth ymchwil a gyflwynwyd gan Ofcom. Yn benodol, fe wnaeth nifer y pwynt canlynol - er bod ffactorau fel "mae'r cyflwynwyr mewn stiwdio yn fy ardal i" neu "mae'r cyflwynwyr yn siarad am ddiwyddiadau yn fy ardal leol i" wedi'u gosod yn is yn yr ymchwil o ran sgôr na ffactorau fel "darparu newyddion a gwybodaeth leol" nid yw'n golygu nad yw'r ffactorau hyn yn bwysig i wrandawyr".

Cynnig i beidio â disgwyl i sioeau brecwast gael eu gwneud yn lleol mwyach

- 3.15 Er mai ychydig iawn o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau ar nifer penodol yr oriau a gynigiwyd gennym ar gyfer y canllawiau lleolrwydd diwygiedig, mynegwyd llawer o bryder am y cynnig na ddylid disgwyl mwyach i orsafoedd ddarparu rhaglen frecwast wedi'i gwneud yn lleol. Y rheswm am hyn yw bod arlwy amser brecwast yn ystod yr wythnos yn cael ei ystyried yn sioe bwysig i orsaf a dyna sydd fel arfer yn denu'r rhan fwyaf o wrandawyr, ac ar y rhan fwyaf o orsafoedd mae ganddi lawer mwy o gynnwys llafar na'r rhaglenni sy'n cael eu darlledu am weddill y dydd, sy'n cynnwys mwy o gerddoriaeth. Mae gan sioeau brecwast hefyd rôl bwysig yn darparu gwybodaeth am y tywydd a theithio i wrandawyr wrth iddynt godi ac angen mynd i'r gwaith neu'r ysgol. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn dadlau bod rhaglen frecwast sy'n cael ei gwneud yn lleol, ac sy'n aml yn cael ei chyflwyno gan bobl sy'n adnabyddus yn yr ardal leol ac wedi bod yn cyflwyno'r sioe ers amser hir, yn hanfodol i gyflwyno'r cymeriad lleol sy'n ofynnol gan Fformatau gorsafoedd unigol.
- 3.16 Er enghraifft, er bod Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom yn derbyn y ddadl eang nad yw mynnu bod rhaglenni'n cael eu cynhyrchu'n lleol yn sicrhau ohono'i hun y byddai cynnwys lleol yn cael ei ddarparu, fe ddywedodd fod y "rôl benodol sydd gan sioe frecwast flaenllaw gorsaf yn ei gwneud yn wahanol i gynnyrch gweddill y dydd". Dywedodd Pwyllgor Cynghori Cymru, "er ein bod yn derbyn y byddai'n dal yn bosibl cynnwys bwletin newyddion lleol bob awr mewn sioe rwydwaith, credwn y byddai'n fwy anodd cynnwys deunydd lleol arall fel tywydd a theithio mewn ffordd a fyddai'n gredadwy i wrandawyr lleol. Byddai colli'r elfen ymateb yn gyflym a pherthnasedd lleol, er enghraifft, byddai methiant cyflwynydd i roi sylwadau anffurfiol am ddiwyddiadau lleol i'w glywed yn amlwg iawn mewn rhaglen rwydwaith gyffredinol".

Materion eraill a godwyd yn ymwneud â rhaglenni a wneir yn lleol

- 3.17 Er nad yw hyn yn berthnasol yn uniongyrchol i'r cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad, fe wnaeth nifer o'r ymatebwyr gyfeirio at faterion ehangach yn ymwneud â'r gostyngiad sy'n cael ei gynnig yn yr oriau o gynnyrch a wneir yn lleol, a dadreoleiddio'r sector yn fwy cyffredinol, gan gynnwys:

- mae'r sector radio masnachol yn iach iawn yn ariannol¹³ a does dim angen rhagor o ddadroleiddio arno;
 - mae dadroleiddio radio analog yn lleihau cymhellion darlledwyr i symud i lwyfannau digidol; a
 - dylai Ofcom aros i'r Senedd benderfynu ar gynigion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)¹⁴ ar gyfer dadroleiddio radio masnachol cyn gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r canllawiau lleolrwydd.
- 3.18 Roedd rhai ymatebwyr (Cymdeithas y Cyfryngau Cymunedol a'r orsaf radio masnachol ar gyfer Exeter, Radio Exe) wedi gwneud awgrymiadau'n ymwneud â materion y tu allan i gylch gwaith rheoleiddio Ofcom. Un awgrym oedd na ddylai gorsafedd radio masnachol gael refeniw o'r farchnad hysbysebu leol os nad ydynt yn cynhyrchu'n lleol. Roedd y CMA hefyd yn dadlau y dylai unrhyw ostyngiad yn nifer y rhaglenni a wneir yn lleol ar radio masnachol fynd law yn llaw â llacio'r rheolau sy'n atal gorsafedd radio cymunedol rhag cyflawni gweithgarwch masnachol sy'n cynhyrchu incwm, ac y dylid codi'r trothwy o £15,000 y mae gan orsafedd radio cymunedol hawl i'w ennill heb iddo gael ei gyfateb gan incwm anfasnachol¹⁵. Yn yr un modd, roedd y CMA yn cynnig cryfhau'r sector radio cymunedol drwy gynyddu maint y Gronfa Radio Cymunedol¹⁶.
- 3.19 Yn olaf, dywedodd Radiocentre, Bauer Radio a nifer o ymatebwyr eraill y byddai disgwyl i wasanaethau AM lleol, dan y cynigion, ddarparu mwy o raglenni wedi'u gwneud yn lleol na'u cymheiriaid FM. A'r rheswm am hyn yw bod yn rhaid i orsafedd AM o hyd gynhyrchu 10 awr o raglenni bob dydd yn eu Gwlad eu hunain, er nad oes raid iddynt gynhyrchu dim oriau yn eu hardal drwyddedu eu hunain.

Dadansoddiad a chasgliad

- 3.20 Wrth ystyried y pwyntiau a ddisgrifir uchod ac a godwyd gan ymatebwyr, rydym yn cydnabod y gallai llai o bresenoldeb lleol effeithio ar gymeriad lleol gorsaf. Ond, does dim sicrwydd chwaith y bydd presenoldeb lleol yn sicrhau bod gwasanaeth yn berthnasol yn lleol.
- 3.21 O ran y pwyntiau a wnaed gan ymatebwyr am y cyfyngiadau o orfod cyflwyno deunydd lleol ar 'gyffordd' benodol mewn rhaglen wedi'i hamserlennu ymlaen llaw, dywedodd rhai grwpiau radio masnachol bod technoleg newydd yn eu galluogi i ddarparu deunydd lleol yn fwy hyblyg y tu allan i'r adegau penodol hyn drwy gael cyflwynwyr i recordio dolenni lleol pwrpasol ymlaen llaw i'w chwarae ar drosglwyddyddion gwahanol. Er y gallai'r opsiwn hwn

¹³Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyhoeddodd Radiocentre ffigurau'r Gymdeithas Hysbysebu/WARC o chwarter 1 2018 a oedd yn dangos mai'r radio yw'r cyfrwng hysbysebu sy'n tyfu gyflymaf (cyn y rhyngwryd), gyda 12.5% o gynnydd blynyddol mewn refeniw. Daeth hyn ar ben y refeniw uchaf erioed ar gyfer radio masnachol o £679m ar gyfer 2017 (5.2% o gynnydd ar refeniw 2016).

¹⁴Mae datganiad y DCMS ar reoleiddio radio masnachol wedi'i gyhoeddi yn:

<https://www.gov.uk/government/consultations/commercial-radio-deregulation-consultation>

¹⁵ Mae'r terfynau hyn yn cael eu gosod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2004 (SI 2004/1944) fel y'i diwygiwyd.

¹⁶ Y llywodraeth sy'n pennu maint y Gronfa Radio Cymunedol. Mae Ofcom yn dosbarthu'r gronfa drwy roi grantiau i ddarparwyr radio cymunedol.

fod yn un ymarferol gyda dim ond nifer fach o orsafoedd yn rhan o'r rhwydwaith, credwn y bydd hyn yn debygol o fod yn llawer mwy heriol ar rwydweithiau mwy o faint sy'n cwmpasu nifer fawr o ardaloedd trwyddedau gwahanol. Fel y dywedodd un ymatebydd: "mae'r heriau ymarferol o roi deunydd lleol mewn trefn yn fwy anodd mewn ardaloedd mwy o faint." Ond, credwn mai mater i orsafoedd yn hytrach nag Ofcom yw i ba raddau mae gallu gorsafoedd i ddarparu deunydd lleol wedi'i gyfyngu (neu beidio) gan dechnoleg rwydweithio. Mater i'n trwyddedeion yw sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion yn eu trwyddedau.

- 3.22 Roedd y safbwynt a gyflwynwyd gennym yn yr ymgynghoriad yn seiliedig ar dystiolaeth amrywiol, gan gynnwys yn benodol ymchwil gwreiddiol newydd a gynhaliwyd gennym yn gynharach eleni¹⁷. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau fel a ganlyn - er bod ffactorau fel "mae'r cyflwynwyr mewn stiwdio yn fy ardal i" wedi'u gosod yn is o ran sgôr yn yr ymchwil na ffactorau fel "darparu newyddion a gwybodaeth leol" nid yw'n golygu nad yw'r ffactorau hyn yn bwysig i wrandawyr. Rydym yn cydnabod bod cyflwynwyr sydd wedi'u lleoli'n lleol yn bwysig i rai gwrandawyr (17% yn yr arolwg), ond mae'r ffaith bod ymatebwyr wedi gallu dewis o nifer o ffactorau, a dim angen eu rhoi mewn trefn pwysigrwydd, yn awgrymu i ni eu bod yn llai pwysig na ffactorau fel darparu newyddion lleol a gwybodaeth.
- 3.23 Mewn perthynas â'r pryderon a fynegwyd gan nifer bod ein canllawiau diwygiedig, os cânt eu rhoi ar waith, yn caniatáu i orsaf leol beidio â darparu rhaglen frechwast a wneir yn lleol os dyna'i dymuniad, rydym wrth gwrs yn cydnabod ei bod yn bwysig bod gorsafoedd radio lleol yn darparu lefel uchel o ddeunydd lleol perthnasol ar amser brechwast yn ystod yr wythnos waith, ond nid ydym yn credu bod hyn o reidrwydd yn golygu y dylid disgwyl i orsafoedd lleol wneud y rhaglen yn lleol. Canfu ein hymchwil fod y pwys isel y mae gwrandawyr yn ei roi ar raglenni a wneir yn lleol yr un mor berthnasol i amser brechwast ac i adegau eraill o'r dydd, ac rydym yn cydnabod bod manteision posibl i wrandawyr (e.e. cyflwynwyr sydd â phroffil uwch) petai gan grwpiau radio masnachol yr hyblygrwydd i gynnig rhaglen frechwast gan un tîm cyflwyno cenedlaethol yn darlledu ar draws nifer o orsafoedd lleol, ond sy'n dal yn cynnwys y deunydd sy'n berthnasol yn lleol ar gyfer pob ardal leol y mae'r gwrandawyr yn ei ddisgwyl.
- 3.24 Mewn perthynas â'r pwyntiau ehangach ynghylch dadreoleiddio a wnaed gan rai ymatebwyr, er ein bod ni'n cydnabod y gystadleuaeth gynyddol mae gorsafoedd radio analog lleol yn ei hwynebu gan wasanaethau sain digidol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu, yn gyffredinol, nad yw radio masnachol yn ddiwydiant sy'n cael trafferthion ond yn hytrach yn ddiwydiant sy'n perfformio'n dda iawn ar hyn o bryd o ran denu gwrandawyr a hysbysebwy. Ein nod yw cyflwyno dull gweithredu priodol a chymesur ar gyfer sicrhau cymeriad a chynnwys lleol gwasanaethau radio lleol.
- 3.25 Nid ydym ychwaith yn credu y bydd rhoi mwy o hyblygrwydd i orsafoedd radio analog yn y maes hwn yn cael effaith negyddol ar ddarlledwyr yn mudo i lwyfannau digidol - yn ogystal â'r ffaith nad yw mudo digidol yn amcan polisi penodol gan Ofcom, fe fydd mwy o

¹⁷ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/115168/local-radio-data.pdf

reoleiddio o hyd ar radio analog na radio digidol, ac rydym yn cytuno gyda'r cwmnïau radio masnachol y bydd yr arbedion a wneir ar seilwaith trwyddedau analog yn eu galluogi i fuddsoddi rhagor mewn gwasanaethau digidol newydd sy'n gallu gwella'r dewis i ddefnyddwyr.

- 3.26 O ran y berthynas rhwng y newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad a'r broses o ddad-reoleiddio radio masnachol sydd wedi'i gynnig gan y Llywodraeth, dylid nodi bod Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau yn y maes hwn o dan y fframwaith statudol presennol. Os bydd y fframwaith hwnnw'n newid yn dilyn trafodaethau Seneddol a newidiadau yn cael eu gwneud wedyn i ddeddfwriaeth, rydym yn cydnabod y gallai fod angen newid y canllawiau lleolrwydd i adlewyrchu'r newid yn y ddeddfwriaeth.
- 3.27 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.19, roedd nifer o ymatebwyr wedi nodi y byddai ein canllawiau, o dan y cynigion yn yr ymgynghoriad, yn rhoi mwy o ddisgwyliadau ar wasanaethau AM lleol na gwasanaethau FM lleol o ran lle maent yn gwneud eu rhaglenni. A'r rheswm am hyn yw ein bod, i bob pwrpas, wedi gosod ardal gymeradwy ar gyfer pob gorsaf AM lleol sy'n cyfateb i'r wlad yn y DU lle mae'u hardal ddarparu wedi'i lleoli, ac rydym yn disgwyl iddynt ddarparu 10 awr o raglenni a wneir yn lleol (h.y. o fewn y wlad) bob diwrnod gwaith yn ystod y dydd. Mae hyn yn cymharu â'r tair, neu'r chwe, awr o raglenni a wneir yn lleol bob diwrnod gwaith yn ystod y dydd yr oeddem yn disgwyl i orsafoedd FM eu darparu o'u hardaloedd cymeradwy yn unol â'n cynigion. Rydym yn fodlon â'r sefyllfa hon, gan fod ein canllawiau hefyd yn datgan nad oes yn rhaid i orsafoedd AM lleol yn gyffredinol gynhyrchu dim deunydd lleol, ac yn y rhan fwyaf o achosion nid oes ganddynt Gymeriad Gwasanaeth Lleol i'w ddarparu, tra bydd disgwyl i orsafoedd FM lleol ddarparu deunydd lleol o hyd. Rydym hefyd yn nodi (ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon, ac yng Nghymru hefyd efallai yn dibynnu ar ganlyniad ein hymgyngoriad pellach), y bydd gan orsafoedd FM ardaloedd cymeradwy llai o faint na gorsafoedd AM o hyd lle gallant gynhyrchu eu rhaglenni a wneir yn lleol.
- 3.28 I grynhoi, ar ôl ystyried y safbwyntiau gwahanol a gyflwynwyd gan ymatebwyr, rydym yn dal o'r farn fod rhoi'r hyblygrwydd i orsafoedd leihau nifer y rhaglenni lleol maent yn eu darparu fel y cynigiwyd gennym, gan barhau yr un pryd i fynnu eu bod yn cyflwyno 'cymeriad eu gwasanaeth' drwy ddarparu maint priodol o ddeunydd lleol, yn ddull priodol a chymesur o sicrhau cymeriad a chynnwys lleol gwasanaethau radio lleol.
- 3.29 Rydym felly wedi penderfynu gwneud y newidiadau i'r canllawiau lleolrwydd a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad, parthed nifer y rhaglenni a wneir yn lleol a'u hamserlennu.

4. Ardaloedd cymeradwy

Beth yw'r ardaloedd cymeradwy?

- 4.1 Mewn perthynas ag unrhyw orsaf radio fasnachol leol benodol, y diffiniad (mewn statud) o raglen a wneir yn lleol yw rhaglen sy'n cael ei gwneud ar safleoedd yn yr ardal y mae'r orsaf yn darlledu iddi, neu ar safleoedd yn rhywle arall ond o fewn ardal ehangach sy'n cynnwys ardal ddarlledu'r orsaf. Enw'r ardal hon yw 'ardal gymeradwy' oherwydd rhaid iddi gael ei chymeradwyo gan Ofcom (ar ôl ymgynghori). Cafodd y cysyniad o ardal gymeradwy ei sefydlu yn 2010 i roi mwy o hyblygrwydd i orsafoedd o ran lle maen nhw'n eu gwneud eu rhagenni – yn ymarferol, mae wedi galluogi'r grwpiau radio masnachol mwy o faint i resymoli nifer y stiwdios sydd ganddynt, a gorsafoedd sy'n gymharol agos at ei gilydd i rannu eu rhaglenni a wneir yn lleol (ar yr amod fod modd ystyried yr allbwn yn berthnasol yn lleol i wrandawyr ymhob un o'r ardaloedd darlledu unigol).
- 4.2 Mae ardal gymeradwy yn ymwneud â gorsaf unigol, sy'n golygu bod modd i bob orsaf leol, mewn egwyddor, gael ardal gymeradwy wahanol. Yn hanesyddol, mae Ofcom wedi dilyn dull cymysg. I ddechrau, fe wnaeth gymeradwyo cyfres o ardaloedd fel bod pob gorsaf mewn ardal benodol o'r DU yn cael yr un ardal gymeradwy¹⁸, ond yna fe wnaeth ganiatau ardaloedd cymeradwy gwahanol i rai gorsafoedd (er enghraifft, pan fo dwy neu fwy o orsafoedd mewn mwy nag un o'r ardaloedd a gymeradwywyd eisoes) i ymateb i geisiadau gan drwyddedeion.

Beth roeddem wedi'i gynnig

- 4.3 O gofio fod y gyfres o ardaloedd cymeradwy a sefydlwyd yn 2010 yn ymddangos fel petaent wedi diwallu anghenion gorsafoedd lleol a'u gwrandawyr, heblaw am y nifer fach o achosion lle mae Ofcom wedi cymeradwyo ardaloedd gwahanol, buom yn ystyried mai'r rhain ddylai fod yn fan cychwyn ar gyfer unrhyw gynigion dros newid. Felly, buom yn ymgynghori ynghylch cyfres newydd o ardaloedd cymeradwy sy'n fwy na'r rhai a osodwyd yn 2010, ac sydd wedi'u cynllunio i gyfateb yn fras i ranbarthau ITV. Y rheswm oedd fod rhanbarthau ITV eisoes yn fframwaith sydd wedi ennill ei blwyf ar gyfer darparu rhaglenni darlledu ar lefel is na'r DU, ac mae cynulleidfaoedd a hysbysebwr yn weddol gyfarwydd ag ef.
- 4.4 Yn Adran 4 o'r ddogfen ymgynghori, gellir gweld mapiau sy'n dangos yr ardaloedd cymeradwy presennol a'r ardaloedd arfaethedig newydd – gweler Ffigyrau 8 a 10¹⁹.
- 4.5 Fe wnaethom ni ddweud y byddai ardaloedd cymeradwy mwy o faint yn rhoi mwy o ryddid i drwyddedeion i bennu lle i leoli eu gorsafoedd a chreu eu cynnwys, ac y byddai'r hyblygrwydd hwn yn galluogi grwpiau radio sy'n berchen ar nifer o drwyddedau yn yr un

¹⁸ Yr unig eithriadau i hyn yn Llundain Fwyaf a gogledd yr Alban. Byddai angen i unrhyw orsafoedd yn yr ardaloedd hyn ofyn i Ofcom gymeradwyo ardal fesul achos.

¹⁹ Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/115181/lleolrwydd-radio-masnachol.pdf

rhanbarth roi mwy o adnoddau i wneud rhaglenni a llai i gostau “brics a mortar” i gynnal gorsafoedd lleol ar wahân.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr

- 4.6 Fe wnaethom ni gael llawer o sylwadau gan ymatebwyr am yr ardaloedd cymeradwy newydd arfaethedig, gan gynnwys gwahanol awgrymiadau penodol ynglŷn â sut (a pham) y dylid newid rhai ardaloedd.
- 4.7 Er enghraifft, bu rhai ymatebwyr yn dadlau y dylai Swydd Gaerloyw fod yn rhan o'r ardal gymeradwy arfaethedig newydd 'Gorllewin Lloegr' yn hytrach nag yn rhan o'r ardal gymeradwy arfaethedig newydd 'Canolbarth Lloegr', ac roedd rhai eraill yn dadlau y dylai'r ardal gymeradwy 'Solent' fod yn rhan o'r ardal gymeradwy arfaethedig newydd 'De Lloegr' yn hytrach nag yn rhan o'r ardal gymeradwy arfaethedig newydd 'Gorllewin Lloegr'.
- 4.8 Roedd rhai ymatebwyr eraill yn gwrthwynebu mewn egwyddor i'n cynigion, gan mwyaf oherwydd eu bod yn ystyried bod yr ardaloedd cymeradwy yn rhy fawr i gael unrhyw berthnasedd lleol o bwys. Er enghraifft, dywedodd Radio Exe, sef yr orsaf radio fasnachol leol i Exeter, fod “y symudiad tuag at 13 o ardaloedd mwy o faint yn gam ar y ffordd tuag at fwy o orsafoedd masnachol cenedlaethol yn clytio casgliad o drwyddedau lleol at ei gilydd ... dim ond pobl nad ydynt yn deall daearyddiaeth fyddai'n meddwl bod 50,000 o filltiroedd sgwâr (sef amcangyfrif bras o ranbarth newydd gorllewin Lloegr) yn ardal leol y mae pobl yn ei hystyried yn un gymuned.”
- 4.9 O ran ein cynigion penodol ar gyfer **Lloegr**, roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y byddai'r ardal gymeradwy arfaethedig newydd 'Canolbarth Lloegr' yn rhy fawr, yn rhannol oherwydd bod Dwyrain Canolbarth Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr yn wahanol yn ddiwylliannol. Y dystiolaeth a roesant ar gyfer hyn oedd y ffaith fod ITV yn cynhyrchu rhaglenni newyddion lleol ar wahân ar gyfer dwyrain a gorllewin y rhanbarth Canol. Roedd pryderon hefyd gan ymatebwyr, gan gynnwys Tim Farron (Aelod Seneddol Westmorland a Lonsdale), y byddai ardal gymeradwy arfaethedig newydd 'Gogledd-Orllewin Lloegr' yn cael ei dylanwadu'n ormodol gan Lerpwl a Manceinion ar draul siroedd mwy gwledig Swydd Gaerhirfryn a Cumbria.
- 4.10 Heblaw am ambell sylw gan unigolion a oedd yn meddwl yn anghywir ein bod ni'n cynnig un ardal ar gyfer gogledd yr Alban a Gogledd Iwerddon, ni chafwyd unrhyw sylwadau gan ymatebwyr am ein cynigion ar gyfer **Gogledd Iwerddon**. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw bod Gogledd Iwerddon yn un ardal gymeradwy ers 2010, ac nid oeddem yn cynnig newid hyn.
- 4.11 Roedd y prif wrthwynebiad i'n cynigion ar gyfer yr **Alban** yn canolbwytio ar ein cynnig i gyfuno'r ardaloedd cymeradwy sydd ar wahân ar hyn o bryd, sef 'Glasgow a De-orllewin yr Alban' a 'Chaeredin a'r Gororau', yn un ardal, sef 'De yr Alban'. Roedd un ymatebwr yn dadlau bod “natur wahanol dwyrain a gorllewin yr Alban yn un o'r nodweddion sy'n diffinio bywyd a diwylliant yr Alban, a dylai barhau i gael ei adlewyrchu yn y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau lleol yn yr Alban”. Dywedodd Llywodraeth yr Alban “nad oedd yn ffyddiog na fydd creu ardal gymeradwy mor fawr yn cael effaith negyddol ar gymeriad ac

- ansawdd y deunydd lleol". Roedd pryderon hefyd am y tueddiad cynyddu tuag at 'ganoli' y cyfryngau Albanaidd yn Glasgow.
- 4.12 Roedd ymateb Pwyllgor Cyngori Ofcom ar gyfer yr Alban yn dweud bod "hunaniaeth yr Alban yn gymhleth a bydd unrhyw ganolfan gynhyrchu a'i staff, lle bynnag y byddont, yn cael eu dylanwadu gan eu hardal, demograffeg cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol uniongyrchol, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cynnwys a greeir."
- 4.13 Roedd Stuart McDonald (Aelod Seneddol Cumberland, Kilsyth a Dwyrain Kirkintilloch) yn dadlau'n gryf yn erbyn gwneud unrhyw newidiadau i'r ardaloedd cymeradwy presennol yn yr Alban, gan gynnwys mewn perthynas â'n cynnig i greu ardal newydd Gogledd yr Alban (lle nad oes unrhyw ardaloedd cymeradwy ar hyn o bryd). Meddai: "Nid yw'r cynigion hyn yn mynd i'r adael â'r gwahaniaethau diwylliannol, daearyddol ac ieithyddol sy'n bodoli rhwng rhanbarthau yn yr Alban, a chredaf fod rhaid cadw'r status quo o ran yr ardaloedd cymeradwy yn yr Alban".
- 4.14 Yn erbyn yr ymatebion hyn, roedd barn dau o'r gweithredwyr radio masnachol llai o faint yn yr Alban, sef Nation Broadcasting (sydd newydd gael trwyddedau yn Glasgow, Helensburg a Dumbarton) a New Wave Media (sy'n berchen ar Original 106 yn Aberdeen a Central FM yn Stirling a Falkirk), a oedd yn dadlau y dylai'r Alban fod yn un ardal gymeradwy (gan fod cynnig yn yr ymgynghoriad i Gymru a Gogledd Iwerddon fod yn un ardal gymeradwy).
- 4.15 Roedd y ddau weithredwr radio masnachol mwyaf yn yr Alban, sef Bauer a Global, yn cefnogi cynnig Ofcom i sefydlu 'De yr Alban' a 'Gogledd yr Alban' yn ardaloedd cymeradwy.
- 4.16 Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r ardal gymeradwy a gynigir yn yr ymgynghoriad ar gyfer **Cymru** gyfan fod yn ddwy ardal, sef Gogledd Cymru a De Cymru. Ymysg y dadleuon a gyflwynwyd dros hyn oedd y byddai hyn yn atal unrhyw orsafoedd lleol yng Ngogledd Cymru rhag bod yn gallu darlledu eu rhaglenni a wneir yn lleol o Gaerdydd, ar y sail bod gwahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol sylweddol rhwng rhannau gogleddol a deheuol Cymru, ac mewn modd tebyg fod gan Gogledd Cymru gysylltiadau agosach â gogledd-orllewin Lloegr na de Cymru.
- 4.17 Roedd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y Cynulliad yn dadlau y gallai'r newid leihau'r graddau y mae gorsafoedd radio wedi'u gwreiddio yn yr ardaloedd y maent yn darlledu iddynt, a'r graddau y maent yn adlewyrchu'r ardaloedd hynny, gan arwain at unffurfiaeth yn y cynnwys.
- 4.18 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, roedd Pwyllgor Cyngori Ofcom ar gyfer Cymru ar y llaw arall, yn cefnogi'r ardal gymeradwy "Cymru gyfan" am ei fod yn "cefnogi'r syniad o gydnabod Cymru fel un diriogaeth unedig gan ei fod yn gyson â'r cysyniad o adrodd newyddion o'r wlad", a bod "creu un ardal ar gyfer Cymru yn cynnig cyfle i gynhyrchu newyddion rhesymegol sy'n gwasanaethu buddiannau cenedlaethol Cymreig y gwrandawyr." Rydym wedi trafod y mater yn uniongyrchol â'r Pwyllgor ers hynny, a dywedodd ei fod wedi ailystyried y mater ac er ei fod yn ystyried bod llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd yn ei ymateb yn dal yn berthnasol, mae'n gefnogol i gael dwy ardal gymeradwy yng Nghymru (sef Gogledd a De).

Dadansoddiad a chasgliad

- 4.19 Roedd Radiocentre yn cefnogi ein cynnig i ddefnyddio rhanbarthau ITV fel sail yr ardaloedd cymeradwy mwy o faint, gan ddweud bod “y mesurau i symud tuag at gyfres o ardaloedd cymeradwy sy’n seiliedig yn fras ar ranbarthau presennol ITV yn ymddangos yn gam synhwyrol ar hyn o bryd.”
- 4.20 Roedd ymatebwyr eraill yn meddwl bod ein cynigion yn awgrymu bod perthynas uniongyrchol rhwng maint ardal gymeradwy a pha mor lleol yw'r deunydd lleol a ddarperir ar unrhyw orsaf o fewn yr ardal gymeradwy honno. Ond o dan y gyfundrefn reoleiddio, bydd rhaid i bob gorsaf leol sy’n gorfod darparu gwasanaeth â chymeriad lleol, ddarlledu deunydd lleol sy’n berthnasol i’w hardal ddarlledu drwyddedig, ni waeth ble mae eu stiwdio.
- 4.21 Nid oedd neb yn anghytuno â'r canfyddiadau o’n hymchwil – lle nad oedd lleoliad y cyflwynwyr yn cael ei ystyried mor bwysig â darparu deunydd lleol – neu o’n dadansoddiad fod datblygiadau mewn technoleg wedi ei gwneud hi'n haws i gasglu a chynhyrchu deunydd lleol heb orfod bod yn gorfforol yn yr ardal leol.
- 4.22 Felly, heblaw am yr ardaloedd penodol a nodir isod, rydym wedi penderfynu cymeradwyo’r ardaloedd a gynigir yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi derbyn awgrym gan Lincs FM Group i enwi ardal gymeradwy ‘Swydd Efrog’ yn ‘Swydd Efrog a Swydd Lincoln’ i adlewyrchu cynnwys y sir honno yn yr ardal gymeradwy hon.
- 4.23 Rydym hefyd wedi cael sylwadau manwl amrywiol gan drwyddedeion ac ymatebwyr eraill am gyfansoddiad ardaloedd cymeradwy newydd penodol, megis y cynnig i osod ardal gymeradwy bresennol ‘Solent’ o fewn ardal gymeradwy newydd ‘Gorllewin Lloegr’ yn hytrach na’r ardal gymeradwy newydd ‘De Lloegr’. Er ein bod ni'n dal o'r farn fod yr ardaloedd cymeradwy ar gyfer Lloegr y buom yn ymgynghori yn eu cylch, yn briodol rydym yn cydnabod y gallai rhai trwyddedeion fod eisiau cael cymeradwyaeth i ardal gymeradwy wahanol i'w gorsafoedd am resymau sy'n cynnwys buddiannau strategol a masnachol y grwpiau radio dan sylw.
- 4.24 I fod yn glir, caiff trwyddedau sy'n dymuno cael ardal gymeradwy wahanol i'w gorsaf gyflwyno cais i ni i gymeradwyo’r ardal a gynigir. Yn unol â’r statud, rhaid ymgynghori ynghylch ceisiadau o’r fath cyn i Ofcom fod yn gallu eu cymeradwyo. Bydd y ceisiadau hyn yn parhau i gael eu hystyried fesul achos gan ddefnyddio’r meini prawf presennol, sef maint yr orsaf, y cysylltiadau rhwng ardaloedd y gorsafoedd dan sylw, y pellter rhwng gorsafoedd a hyfywedd ariannol, fel y nodir yn ein canllawiau presennol ar reoleiddio newidiadau i Fformat.²⁰
- 4.25 Ond rydym yn cydnabod ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw drwyddedai yn gofyn am gael lleihau maint ei ardal gymeradwy. Felly, gan ystyried y dadleuon diwylliannol ac ieithyddol cryf a wnaed yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r cyngor a gafwyd gan ein

²⁰ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0024/87405/The-regulation-of-Format-changes.pdf

Pwyllgor Cyngori ar gyfer Cymru a'r Alban, rydym yn adolygu ein cynigion ar gyfer ardaloedd cymeradwy yn y ddwy wlad hon, fel a ganlyn:

- mynd yn ôl i'r ardaloedd cymeradwy ar wahân ar gyfer rhannau gorllewinol a dwyreiniol o dde yr Alban;
- peidio â chymeradwyo unrhyw ardal(oedd) i orsafoedd yng ngogledd yr Alban (sef cadw'r sefyllfa bresennol), a;
- rhannu Cymru yn ddwy ardal gymeradwy newydd, sef Gogledd Cymru a De Cymru. Byddai ardal arfaethedig Gogledd Cymru yn troi yn ardal gymeradwy 'Gogledd a Chanolbarth Cymru', a byddai ardal gymeradwy De Cymru yn uno ardaloedd cymeradwy 'De Cymru' a 'Gorllewin Cymru.

4.26 Yn Atodiad 3, mae tabl yn rhestru'r trwyddedau yng Nghymru a'r Alban a fyddai'n dod o fewn pob ardal gymeradwy dan y cynigion uchod.

4.27 Rydym yn ymgynghori ynghylch y cynnig uchod am gyfnod o bedair wythnos, gan ddechrau ar 26 Hydref. Mae manylion ar gael yn Atodiad 3 ynghylch sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Dyma gwestiwn yr ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion diwygiedig ar gyfer ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban? Os nad ydych chi, nodwch unrhyw gynigion eraill rydych chi'n meddwl y dylid eu hystyried (os o gwbl) ac egluro'r rhesymau a/neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwynt.

5. Deunydd Lleol

Beth roeddem wedi'i gynnig

- 5.1 Yng ngoleuni ein cynigion i ostwng ein disgwyliadau o ran faint o raglenni sydd wedi'u gwneud yn lleol y dylid eu darparu (gweler Adran 3 o'r ddogfen hon), rydym wedi cynnig yn yr ymgynghoriad i ddiwygio'r canllawiau i egluro y dylai gorsafoedd barhau i ddarparu digon o ddeunydd lleol i gadw eu cymeriad lleol.
- 5.2 Mae'r canllawiau cyfredol yn dweud mai dim ond yn ystod yr oriau pryd mae'r rhaglenni'n rhai a wnaed yn lleol y dylid darparu deunydd lleol.
- 5.3 Yn yr ymgynghoriad, rydym wedi cynnig dileu'r frawddeg ganlynol yn y canllawiau cyfredol:
"dylai'r rhaglenni a wneir yn lleol gynnwys deunydd lleol ar draws yr oriau sylfaenol a nodwyd yn gyffredinol, er nad oes angen cynnwys deunydd lleol ym mhob un o'r oriau unigol hynny os nad ydy hyn yn briodol"
a gosod y canllawiau newydd canlynol:
"dylai unrhyw orsaf, y mae cymeriad ei wasanaeth yn golygu ei bod yn gorfod darparu gwasanaeth lleol, gynnwys, yn ogystal â lefel y newyddion lleol a bennir yn ei Fformat, ddigon o ddeunydd lleol arall sy'n gyson â'r canllawiau hyn i gyflwyno cymeriad gofynnol y gwasanaeth".
- 5.4 Roedd y newid arfaethedig yn cydnabod y ffaith y bydd rhai gorsafoedd yn y dyfodol yn darparu dim ond 3 neu 6 awr o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener a dim ar benwythnosau, a bydd disgwyl o hyd iddynt ddarparu lefelau priodol o ddeunydd lleol.
- 5.5 Nid oeddem yn cynnig unrhyw newidiadau eraill i'n canllawiau gan eu bod yn ymwneud â deunydd lleol, ac nid oeddem yn cynnig unrhyw newidiadau i'r canllawiau am ddarparu newyddion lleol.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr

- 5.6 Ychydig o bwyntiau a godwyd gan y rhai a ymatebodd am yr agwedd hon ar ein cynigion – roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu ein cynigion mewn perthynas â rhaglenni a wneir yn lleol yn cydnabod nad oeddem yn cynnig gostwng ein disgwyliadau mewn perthynas â deunydd lleol (er, fel y trafodwyd yn y ddwy adran flaenorol o'r ddogfen hon, roedd bron pawb yn ystyried y byddai'r cyntaf yn cael effaith negyddol ar yr olaf). At ei gilydd, roedd rhai eraill yn fodlon â'r newid arfaethedig i ddarparu deunydd lleol.
- 5.7 Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried, yng ngoleuni'r gostyngiadau arfaethedig yn yr oriau a gynhyrchir yn lleol a'r cynnydd ym maint yr ardaloedd cymeradwy, y dylai fod rhaid i orsafoedd ddarparu mwy o ddeunydd lleol nag ar hyn o bryd, neu y dylid cael cwotâu ar gyfer y broses o ddarparu mathau penodol o ddeunydd lleol, yn enwedig bwletinau newyddion lleol. Er enghraifft, awgrymodd Tîm Darlledu Heart of the Nation y dylai

gorsafoedd lleol ddarlledu rhwng pum a chwe munud yr awr o newyddion lleol yn ystod oriau brig, ac y dylai hyn gynnwys storïau o ardal trwydded yr orsaf a'r 'ardal gymeradwy' ehangach.

- 5.8 Awgrymodd Radiocentre y dylid “diweddarau'r hyn mae ‘deunydd lleol’ yn ei olygu drwy ychwanegu gwybodaeth, newyddion ac eitemau am yr ardaloedd sydd yn union y tu allan i'r ardal uniongyrchol ond a allai fod o ddiddordeb arbennig i bobl yn yr ardal leol. Er enghraifft, mewn rhai achosion gallai newyddion neu wybodaeth am gyflogwr yn rhywle arall fod yn berthnasol i weithwyr mewn ardal trwydded.” Ychwanegodd y “byddai o gymorth petai Ofcom yn gallu egluro bod modd ystyried allbwn sydd â goblygiadau lleol yn ddeunydd lleol.”

Dadansoddiad a chasgliad

- 5.9 Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol ceisio gosod cwotâu manwl ar gyfer deunydd lleol – rydym yn ystyried mai mater i'r trwyddedeion yw pennu sut fyddai'r ffordd orau o ddarparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio â chymeriad ei wasanaeth, gan dalu sylw i'n canllawiau ar leolrwydd.
- 5.10 O ran awgrym Radiocentre am y diffiniad o ddeunydd lleol, rydym yn hapus i egluro bod ein canllawiau lleolrwydd eisoes yn caniatáu ystyried bod deunydd sy'n berthnasol, ond nid o reidrwydd yn dod yn uniongyrchol o ardal leol yr orsaf, yn ddeunydd lleol. Dan yr is-bennawd 'Beth ydy deunydd lleol' (gweler Atodiad 1), rydym yn datgan y dylai deunydd lleol, ymysg pethau eraill, 'gael cynnwys sy'n dod o ardal drwyddedig yr orsaf a/neu fod yn berthnasol i'r ardal honno", ac y "dylai trwyddedeion allu adnabod amrywiaeth o allbwn sy'n arbennig o berthnasol i'w hardal leol". Yn ein barn ni, mae ein canllawiau mewn perthynas â deunydd lleol, yn eu cyfanrwydd, yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng rhoi hyblygrwydd i drwyddedeion benderfynu ar natur y deunydd lleol a ddarperir ganddynt, a sicrhau bod gwrandawyr yn cael y gwasanaethau sy'n berthnasol yn lleol y maent yn eu disgwyl.
- 5.11 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, rydym wedi penderfynu diwygio'r canllawiau a nodir yn yr ymgynghoriad.

A1. Y canllawiau diwygiedig ar gyfer lleolrwydd

Canllawiau Lleolrwydd Ofcom

Cyflwyniad

Mae deddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod gorsafoedd radio masnachol lleol yn darparu nifer priodol o:

- raglenni sy'n cynnwys deunydd lleol; a
- rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol

a'i fod yn darparu canllawiau ynghylch sut dylid diwallu'r gofynion uchod.

Dyma'r canllawiau angenrheidiol. Maen nhw'n nodi polisi cyffredinol Ofcom mewn perthynas â'r gofynion lleol hyn a sut rydym yn debygol o'u defnyddio gyda gorsafoedd lleol yn y rhan fwyaf o achosion.

Mae Ofcom yn ystyried pob gorsaf fesul achos a sut, os o gwbl, y dylai'r canllawiau hyn fod yn berthnasol i'r gorsafoedd hynny. Mae'r graddau y mae'n rhaid i ddeunydd lleol a rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol gael eu cynnwys yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan drwyddedai yn cael eu pennu yn Fformat yr orsaf (ac mae hyn yn gallu amrywio rhwng gorsafoedd).

Nid ydy lleolrwydd yn fater i bob gorsaf, ond pan fydd yn ofynnol gan Fformat trwyddedig gorsaf, dylai'r canllawiau hyn gyfrannu ato.

Yn benodol, dylai unrhyw orsaf y mae cymeriad ei wasanaeth yn mynnu ei fod yn darparu gwasanaeth lleol gynnwys, yn ogystal â lefel y newyddion lleol a bennwyd yn ei Fformat, ddigon o ddeunydd lleol yn unol â'r canllawiau hyn i gyflawni'r cymeriad gwasanaeth angenrheidiol.

Nid rheolau ydy'r canllawiau hyn, ond maen nhw'n amlinellu'r math o ystyriaethau a allai fod yn berthnasol os bydd angen ymchwilio i allbwn lleolrwydd gorsaf. Mae nifer o'r ystyriaethau hyn yn seiliedig ar ddisgwyliadau gwrandawyr.

Deunydd lleol

Mae Adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn diffinio 'deunydd lleol' fel *deunydd sydd o ddiddordeb penodol i'r rheini sy'n byw neu'n gweithio yn (neu mewn rhan o) yr ardal neu'r ardal leol lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu, neu i gymunedau penodol sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol honno (neu ran ohoni)*. Mae modd ei gyflawni mewn sawl ffordd (newyddion lleol, gwybodaeth leol, sylw, darllediadau allanol, beth sydd 'mlaen, newyddion teithio, cyfweiliadau, gweithgareddau elusenol, tywydd, amser ar yr awyr i gerddorion lleol, celfyddydau a diwylliant lleol, chwaraeon, sesiynau ffonio i mewn, gwrandawyr yn rhyngweithio, ac ati). Mater i bob gorsaf i benderfynu ei hun yw'r cydbwysedd rhwng y gwahanol elfennau o ddeunydd lleol a amlinellir. Ond, pan fydd angen i orsaf ddarlledu deunydd lleol dylai gynnwys o leiaf rai o'r elfennau hyn.

Beth ydy deunydd lleol

Rydym yn ystyried bod deunydd lleol yn golygu'r canlynol, ymysg pethau eraill:

Datganiad ac ymgynghoriad: Lleolrwydd ar radio masnachol

- Dylai'r gwrandawyr gael teimlad o'r ardal drwy wrando ar orsaf benodol, a bod yn hyderus bod materion sy'n bwysig, yn berthnasol neu o ddiddordeb yn lleol i'r gynulleidfa darged yn cael eu darlledu.
- Dylai hyn gynnwys rhaglenni sy'n berthnasol yn lleol ac sydd hefyd yn cynnig dewis amgen i wasanaeth ar gyfer y DU neu ar gyfer y wlad.
- Dylai fod â chynnwys a ddaw o ardal drwyddedig yr orsaf, a/neu fod yn berthnasol i'r ardal honno;
- Dylai'r trwyddedigion allu adnabod amrywiaeth o allbwn sy'n arbennig o berthnasol i'w hardal leol;
- Dylai rhaglenni fod yn debygol o roi teimlad o berchnogaeth a/neu berthyn i wrandawyr, yn enwedig yn ystod cyfnod o argyfwng (eira, llifogydd ac ati).

Beth nad yw'n ddeunydd lleol

- Nid yw gweithgareddau hyrwyddo pur oddi ar yr awyr fel hyrwyddo'r orsaf yn yr ardal (cerbydau sy'n dangos logos yr orsaf, darllediadau allanol ac ati), heb weithgareddau ar yr awyr sy'n ymwneud â rhywbeth ar wahân i hyrwyddo eu hunain, yn cymryd lle rhaglenni lleol.
- Ni fyddid yn ystyried bod cystadlaethau / hyrwyddiadau sy'n gwahodd gwrandawyr i gymryd rhan o'r tu allan i ardal yr orsaf yn gyfraniad at leolrwydd; a
- Nid ystyrir bod hysbysebion yn rhaglenni lleol yng nghyd-destun lleolrwydd a chanllawiau lleolrwydd Ofcom.

Darparu newyddion lleol

Oherwydd pwysigrwydd newyddion lleol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, dylai pob gorsaf sy'n gorfod darlledu deunydd lleol ddarlledu newyddion lleol o leiaf bob awr drwy gydol yr oriau brig o ddydd Llun i ddydd Gwener (brecwast a diwedd y prynhawn) ac ar benwythnosau (brecwast hwyr). Dylai'r gorsafoedd hynny sydd wedi ymrwymo i wasanaeth newyddion gwell (gweler isod) ddarlledu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener (6am-7pm) a drwy gydol yr oriau brig (brecwast hwyr) ar benwythnosau.

Cynnwys newyddion lleol:

- Dylai newyddion lleol fod o ansawdd uchel, yn berthnasol, yn amserol ac yn gywir, a dylai gydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Darlledu.
- Dylai gorsaf allu ymateb ar yr awyr i ddigwyddiadau lleol mawr mewn ffordd amserol.
- Dylai bwletinau geisio adlewyrchu diddordebau a phryderon gwrandawyr sy'n byw yn yr ardal.
- Dylai straeon newyddion lleol fod yn rhai diweddar, a dylid eu diweddarau'n rheolaidd.
- Dylai bwletinau newyddion lleol hefyd gynnwys newyddion o'r gwledydd (os ydy hynny'n berthnasol), o'r DU a newyddion rhyngwladol.
- Dylai lefel y newyddion lleol, a'r cydbwysedd o newyddion lleol a chenedlaethol mewn unrhyw fwletin penodol, fod yn destun crebwyll newyddiadurool proffesiynol, ond bydd newyddion lleol bob tro yn nodwedd hanfodol o allbwn cyffredinol gorsaf leol.
- Ni fyddid yn ystyried bod rhoi gwedd leol ar newyddion y DU (e.e. gofyn am gyfweiliadau mewn ardal a'u chwarae fel petaent yn dod o ardal arall neu fewnosod enwau lleoedd lleol mewn straeon DU) heb gynhyrchu newyddion / gwybodaeth leol yn gyfraniad at leolrwydd na chyflawni gofynion newyddion lleol.
- Er bod straeon am chwaraeon lleol yn gallu bod yn gyfraniad mawr at sicrhau lleolrwydd, a bod hynny'n gallu bod yn rhan bwysig o gymysgedd golygyddol gorsaf leol, ni fyddid yn ystyried bod newyddion chwaraeon lleol yn rhywbeth i gymryd lle straeon newyddion lleol.
- Yn yr un modd, efallai fod newyddion adloniant yn berthnasol yn lleol ond ni ddylai hyn fod yn brif elfen bwletinau newyddion lleol ac ni ddylent gymryd lle straeon newyddion lleol sy'n fwy difrifol.

Gwasanaeth newyddion lleol 'gwell'

Datganiad ac ymgynghoriad: Lleolrwydd ar radio masnachol

Mae rhai gorsafoedd lleol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth newyddion lleol gwell yn gyfnewid am gael darlledu mwy o oriau rhwydwaith (h.y. rhaglenni nad ydyn nhw wedi cael eu gwneud o'u hardal drwyddedig neu gymeradwy) yn ystod rhaglenni yn ystod y dydd.

Mae'r dewis newyddion lleol gwell hwn yn rhoi hyblygrwydd i'r gorsafoedd leihau faint o oriau lleol a gynhrychir, os ydyn nhw'n dymuno arbed arian. Mae darparu bwletinau newyddion lleol yn ystod y dydd, ac yn ystod oriau brig, yn helpu i sicrhau bod cynnwys a hunaniaeth leol yr orsaf yn cael eu cynnal yn ystod yr oriau rhwydwaith hyn yn ystod y dydd.

Felly, mae'n dilyn na ddylai bwletinau lleol a ddarlledir yn ystod y dydd fel rhan o wasanaeth newyddion 'gwell' fod yn ddim ond ymarfer symbolaidd sy'n golygu bod modd ticio'r blwch, a dylai pob bwletin ddiwallu'r gofynion sydd wedi'u nodi ar gyfer newyddion lleol yn gyffredinol (gweler y canllawiau uchod) yr un mor gyfforddus â bwletinau a ddarlledir yn ystod yr oriau brig (h.y. brecwast o ddydd Llun i ddydd Gwener a diwedd y prynhawn, a brecwast hwyr ar benwythnosau).

Er nad ydym erioed wedi rhagnodi'r hyd sylfaenol ar gyfer unrhyw fath o fwletin newyddion, gan fod hynny'n fater i'r trwyddedai, bydden ni bob tro'n disgwyl i bob bwletin gwell yn ystod y dydd gynnwys mwy na dim ond penawdau, a chynnwys o leiaf un stori newyddion lleol sydd wedi cael ei ffurfio'n llawn, ac fel rheol mwy na hyn, ochr yn ochr â straeon cenedlaethol. Mewn achosion pan fydd gorsafoedd yn rhannu eu horiau lleol mewn ardal gymeradwy (gweler y nodiadau ar gyd-leoli a rhannu rhaglenni, isod), ac yn darlledu'r un bwletin newyddion ar draws mwy nag un ardal drwyddedig, mae angen i o leiaf un o'r straeon lleol ym mhob bwletin fod yn uniongyrchol berthnasol i wrandawyr ym mhob un o'r ardaloedd trwyddedig. Y rheswm am hyn yw bod gorsafoedd sy'n rhannu eu horiau lleol yn dal trwyddedau ar wahân y mae dal angen diwallu'r gofynion lleolrwydd a chymeriad y gwasanaeth a nodir yn eu Fformatau unigol.

Cynhyrchu newyddion lleol

- Gall unrhyw grŵp o orsafoedd ddewis cronni eu hadnoddau newyddion a gweithredu un neu fwy o 'ganolfannau newyddion' mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr gweithredol iddyn nhw. Fodd bynnag, er mwyn darparu gwasanaeth newyddion lleol cynhwysfawr sy'n berthnasol i'r ardal dan sylw, dylai pob gorsaf gael cyfrifoldeb uniongyrchol ac atebol dros ddarparu ar gyfer ei hardal drwyddedig.
- Dylid cael darpariaeth briodol o wasanaeth newyddiadurool proffesiynol, yn yr ardal drwyddedig (neu ardal leol gymeradwy os ydy hynny'n briodol), ar ddiwrnodau pan fydd darpariaeth newyddion lleol yn ddyletswydd Fformat.
- Dylai recordio bwletinau newyddion ymlaen llaw fod yn eithriad yn hytrach nag yn arfer a dylai bwletinau oriau brig bob amser gael eu darlledu'n fyw (neu eu recordio ymlaen llaw mymryn cyn eu darlledu).

Rhaglenni a wneir yn lleol

Pan fydd yn rhaid i orsaf ddarlledu rhaglenni sy'n cynnwys deunydd lleol mae'n rhaid i gyfran addas ohonyn nhw (fel y pennir gan Ofcom) fod yn rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol.

Diffinio 'gwneud yn lleol'

Mae rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol yn golygu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn ardal drwyddedig gorsaf neu, pan fydd Ofcom wedi cymeradwyo ardal sy'n ymwneud â'r orsaf honno, yr ardal gymeradwy honno. Fel rheol bydd Fformat gorsaf yn nodi lle mae'n rhaid iddi wneud ei rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol. Er ei bod hi'n dderbyniol i fwletinau newydd gael eu cynhyrchu a/neu eu darparu o'r tu allan i ardal drwyddedig neu gymeradwy'r orsaf fel rhan o drefniant 'canolfan newyddion' (gweler y cyfarwyddyd ar ddarparu newyddion lleol, uchod), ac mae'n iawn i elfennau unigol eraill o gynnwys lleol (fel newyddion teithio) ddod o'r tu allan i'r ardal leol, rydym yn disgwyl y dylai'r prif gyflwynydd ar unrhyw raglen sy'n cael ei darlledu yn ystod oriau'r rhaglenni a wneir yn lleol ar yr orsaf fod yno yn gorfforol yn ardal drwyddedig neu

Datganiad ac ymgynghoriad: Lleolrwydd ar radio masnachol

gymeradwy'r orsaf honno. Mae'r cyfarwyddyd hwn hefyd yn berthnasol i sefyllfaoedd pan fydd prif gyflwynydd rhaglen wedi cael ei recordio ymlaen llaw neu â'i lais wedi'i dracio (h.y. ddim yn darlledu'n 'fyw').

Er bod modd i orsafoedd rwydweithio rhaglenni'r tu allan i'r gofynion sy'n ymwneud â rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol yn eu Fformatau, dylen nhw dal allu ymateb i ddiwyddiadau lleol yn amserol, gan ddarparu rhaglenni lleol byw yn y ffordd ac ar yr adegau y mae cynulleidfaoedd yn eu disgwyl.

Gorsafoedd lleol FM

O ddydd Llun i ddydd Gwener, dylai gorsafoedd lleol FM ddarparu naill ai:

o leiaf 6 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr oriau brig (brecwast a diwedd y prynhawn),

neu;

o leiaf 3 awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol rhwng 6am a 7pm os ydyn nhw'n darparu newyddion lleol o leiaf bob awr drwy gydol yr un cyfnod.

Mewn achosion eithriadol, os bydd gorsaf yn gallu cyflwyno achos cryf ynghylch pam y dylid ei thrin yn wahanol, er enghraifft, fel gorsaf gerddoriaeth arbenigol, ac felly nad oes angen iddi ddarparu cymaint o ddeunydd lleol nag sy'n cael ei awgrymu yn y canllawiau hyn, bydd Ofcom yn ystyried ceisiadau o'r fath fesul achos.

Gorsafoedd lleol AM

Yn gyffredinol nid oes angen i orsafoedd AM gynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol na darlledu deunydd lleol. Ond, dylai pob gorsaf AM gynhyrchu o leiaf 10 awr o raglenni yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener o'r wlad lle mae'r orsaf.

Tarddiad rhaglenni a wneir yn lleol a rhannu rhaglenni

Mae 'rhaglenni a wneir yn lleol', mewn perthynas â gwasanaeth lleol unigol yn golygu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn eiddo sydd naill ai yn:

- a) yr ardal neu'r ardal leol y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar ei chyfer, neu;
- b) yr ardal neu'r ardal leol lle caiff gwasanaeth arall ei ddarparu, ond dim ond pan fydd yr ardal neu'r ardal leol honno'n disgyn mewn ardal ehangach sydd hefyd yn cynnwys yr ardal neu'r ardal leol y mae'r gwasanaeth dan sylw yn cael ei ddarparu ar ei chyfer, ac y mae Ofcom wedi'i chymeradwyo at ddibenion caniatáu i raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol y gwasanaeth dan sylw gael eu gwneud yno ("ardal gymeradwy").

Mae Ofcom wedi cymeradwyo ardal ar gyfer pob gwasanaeth lleol trwyddedig. Mae'r ardaloedd cymeradwy ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu dangos ar y map yn Atodiad 2, ac yn y tabl yn Atodiad 4 mae rhestr o'r trwyddedau ym mhob ardal gymeradwy (ac ar gyfer Ynysoedd y Sianel). Rydym wrthi'n ail-ymgynghori ynghylch yr ardaloedd cymeradwy ar gyfer Cymru a'r Alban (yn y cyfamser, mae'r ardaloedd cymeradwy presennol ar gyfer Cymru a'r Alban yn dal yn bodoli).

Caiff unrhyw orsaf ddarparu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol o'r ardal mae wedi'i thrwyddedu i'w gwasanaethu, neu o stiwdios unrhyw orsaf(oedd) eraill y mae eu hardal(oedd) trwyddedig hefyd yn yr ardal gymeradwy (sy'n cael ei alw yn 'gydleoli'). Mae'r ardal drwyddedig/ardaloedd trwyddedig y mae gorsaf yn cael darparu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ohoni/ohonynt yn cael eu pennu yn ei Fformat.

Caiff gorsaf ofyn i Ofcom gymeradwyo ardal wahanol at ddibenion o ble daw ei rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol (h.y. un sy'n cynnwys un neu ragor o ardaloedd neu ardaloedd lleol nad ydyn nhw yn yr ardal gymeradwy a nodir yn y map a'r tabl isod). Yn ogystal â gorfod cael ei ystyried yn unol â'r broses newid Fformat statudol (sydd o bosibl yn gallu mynnu ymgynghoriad), rhaid cyhoeddi unrhyw gais o'r fath sut bynnag er mwyn gofyn am sylwadau cyn bydd modd i Ofcom ei gymeradwyo.

Mae Fformat gorsaf yn pennu a yw'n cael rhannu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ag unrhyw orsaf arall. Fel mater o bolisi cyffredinol bydd Ofcom yn caniatáu i orsaf rannu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ag unrhyw orsaf arall yn ei hardal gymeradwy, ac mae ein cyfarwyddyd newid Fformat yn adlewyrchu'r dull gweithredu hwn.

Caiff gorsaf hefyd rannu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ag un orsaf neu fwy nad ydyn nhw yn ei hardal gymeradwy. Ni fydd unrhyw geisiadau i newid Fformat sy'n gofyn am ganiatâd o'r fath yn cael eu cymeradwyo fel mater o bolisi cyffredinol, ond byddan nhw'n cael eu hystyried fesul achos ac efallai y bydd hyn yn destun ymgynghoriad.

Pan fydd trefniadau cydleoli a/neu rannu rhaglenni ar waith, dylai pob gorsaf ddal ati i ddarparu deunydd lleol sy'n berthnasol i'r gwrandawyr yn eu hardaloedd trwyddedig unigol.

Mae rhagor o gyfarwyddyd ar ardaloedd cymeradwy, cyd-leoli a/neu rannu rhaglenni ar gael yn ein polisi newid Fformat.

Gorsafoedd 'rhanbarthol' a rhannu rhaglenni

Pan fydd rhai gorsafoedd analog 'rhanbarthol', a restrir isod, yn darparu fersiwn o'u gwasanaeth rhaglenni'n genedlaethol ar DAB, ein polisi ydy na ddylai fod yn rhaid iddyn nhw yn gyffredinol ddarparu deunydd lleol na rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol. Mewn ffordd mae hyn yn caniatáu iddyn nhw fod yn orsafoedd DAB cenedlaethol gyda darpariaeth genedlaethol rannol ar FM. Fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd cynnwys sy'n berthnasol i'r gwledydd yn y gwledydd datganoledig, bydd yn dal yn rhaid i unrhyw orsafoedd rhanbarthol yn y gwledydd hynny gynhyrchu rhaglenni sy'n berthnasol i'r wlad yn unol â'r canllawiau ar gyfer gorsafoedd FM lleol.

Mae hwn yn eithriad i'r dull gweithredu cyffredinol ar ddeunydd lleol a rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol a amlinellir uchod. Mae'n adlewyrchu mai'r gorsafoedd 'rhanbarthol' hyn ydy'r rheini sy'n canolbwyntio'n gyffredinol ar ddarparu estyniad o ddewis cerddoriaeth, yn ogystal â'r rhaglenni angenrheidiol sydd wedi cael eu gwneud yn lleol a deunydd lleol (rhanbarthol). O ganlyniad, maen nhw'n fwy tebygol o gael yr hyblygrwydd i fod fel gorsafoedd cenedlaethol, creu mwy o gystadlueaeth a dewis ar y lefel genedlaethol, drwy eu rhyddhau o ddyletswyddau i ddarparu deunydd lleol a rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol.

Gorsafoedd FM Rhanbarthol a Llundain Fwyaf

Gorsaf	Rhanbarth(au)
Absolute Radio	Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr.
Capital FM	Llundain, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Canol yr Alban, Swydd Efrog.
Gem	Dwyrain Canolbarth Lloegr.
Heart	Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Canol yr Alban, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Swydd Efrog, De Cymru, Gogledd a Chanolbarth Cymru.
Kiss	Llundain, Dwyrain Lloegr, Aber Afon Hafren.
LBC	Llundain.

Datganiad ac ymgynghoriad: Lleolrwydd ar radio masnachol

Magic	Llundain.
Nation Radio	De Cymru.
Radio X	Llundain.
Sam FM	Solent.
Smooth Radio	Llundain, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr.
Wave 105	Solent.

A2. Map o'r ardaloedd cymeradwy ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon

Mae'r map isod yn dangos yr ardaloedd cymeradwy newydd ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. (Nid yw Ynysoedd y Sianel, sy'n dal â'u hardal gymeradwy eu hunain, i'w gweld ar y map). Mae rhestr o'r trwyddedau unigol o fewn yr ardaloedd cymeradwy hyn yn Atodiad 4. Mae map o'r ardaloedd cymeradwy arfaethedig yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch ar gyfer Cymru a'r Alban yn Atodiad 3.



A3. Map o'r ardaloedd cymeradwy ar gyfer Cymru a'r Alban

Mae'r map isod yn dangos yr ardaloedd cymeradwy ar gyfer Cymru a'r Alban yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig nad yw gogledd yr Alban yn cynnwys unrhyw ardaloedd cymeradwy (fel ar hyn o bryd).



A5. Ardaloedd cymeradwy arfaethedig ar gyfer Cymru a'r Alban yn ôl trwydded

<p>Caeredin a'r Gororau (Nifer y trwyddedau: 7)</p>	<p>Borders (Radio Borders) Canol yr Alban (Heart) Canol yr Alban (Capital FM) Caeredin (Forth 1) Caeredin* (Forth 2) Fife (Kingdom FM) Stirling a Falkirk (Central FM)</p>
<p>Glasgow a De-orllewin yr Alban (Nifer y trwyddedau: 11)</p>	<p>Ayr* (West Sound) Ayr (West FM) Canol yr Alban (Heart) Canol yr Alban (Capital FM) Dumfries a Galloway (South West Sound) Dumbarton (Your Radio) Glasgow (Clyde 1) Glasgow* (Clyde 2) Glasgow (Smooth Radio) Glasgow a Gorllwin Canol yr Alban (Nation Radio) Helensburgh (Your Radio)</p>
<p>Gogledd Cymru (Nifer y trwyddedau: 6)</p>	<p>Caernarfon (Capital FM) Ceredigion (Radio Ceredigion) Gogledd a Chanolbarth Cymru (Heart) Arfordir Gogledd Cymru (Capital FM) Wrecsam a Glannau Dyfrdwy (Capital FM) Wrecsam a Glannau Dyfrdwy* (Smooth Radio)</p>
<p>De Cymru (Nifer y trwyddedau: 10)</p>	<p>Pen-y-bont ar Ogwr (Bridge FM) Caerdydd a Chasnewydd (Capital FM) Caerdydd a Chasnewydd* (Smooth Radio)</p>

Datganiad ac ymgynghoriad: Lleolrwydd ar radio masnachol

	Sir Gâr (Radio Sir Gâr)
	Sir Benfro (Radio Sir Benfro)
	De Cymru (Heart)
	De Cymru (Nation Radio)
	Abertawe (Radio Bae Abertawe)
	Abertawe* (Sain Abertawe)
	Abertawe (The Wave)

A6. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

- A6.1 Hoffai Ofcom gael barn a sylwadau am y cwestiynau penodol yn y ddogfen hon am yr ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban yn unig, erbyn 5pm ddydd Gwener 30 Tachwedd 2018.
- A6.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/guidelines-localness-commercial-radio>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A6.3 Os ydy eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros yr e-bost i localness@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>). Dim ond at ddibenion yr ymgynghoriad hwn y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 30 Tachwedd 2018.
- A6.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:
- Jon Heasman
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
- A6.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:
- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
 - Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A6.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A6.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.
- A6.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

- A6.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 6. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A6.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Jon Heasman ar 020 7783 4509, neu dros yr e-bost i jon.heasman@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

- A6.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.
- A6.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A6.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A6.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint, a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion, wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use>

Y camau nesaf

- A6.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod Rhagfyr 2018.
- A6.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r e-bost i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/email-updates>

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A6.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 4.

- A6.18 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges i consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A6.19 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Jacqui Gregory, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Jacqui Gregory
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

- A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

- A4.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.
- A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.
- A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom yw'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
- A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

- A4.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban

At (cyswllt yn Ofcom): Jon Heasman (Uwch Swyddog Gweithredol Trwyddedu Darlledu)

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy'r e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim rhan o'r ymateb

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol neu'n golygu bod modd eich adnabod)?

DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth a roddwyd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad a gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy'r e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os darperir copi papur)

A6. Cwestiwn yr ymgynghoriad

Cwestiwn. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion diwygiedig ar gyfer ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban? Os nad ydych chi, nodwch unrhyw gynigion eraill rydych chi'n meddwl y dylid eu hystyried (os o gwbl) ac egluro'r rhesymau a/neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwynt.